PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Cyflwr y Sector Cymorth i Deuluoedd a Magu Plant 2025



Gwybodaeth a gasglwyd ym mis Mawrth 2025 yn ystod cyfarfod Rhwydwaith Cenedlaethol Arweinyddion Strategol Cymorth i Deuluoedd a Magu Plant.

# Cyflwr y Sector Cymorth i Deuluoedd a Magu Plant 2025

Nid yw'r darlun cyffredinol yng Nghymru wedi newid rhyw lawer ers 2024 gyda nifer o broblemau yn gwaethygu neu'n dod yn fwy cymhleth a phroblemau eraill yn dod i'r golwg. Fodd bynnag, mae'r sector yn wydn ac yn llawn angerdd ac mae'n ymateb mewn modd cadarnhaol.

Nod y sector yw cefnogi teuluoedd ar yr adeg gynharaf posib, gan rannu negeseuon ac adnoddau allweddol cyn i fabanod cael eu geni hyd yn oed.

## Rheswm dros atgyfeirio

Mae natur gyffredinol yr atgyfeiriadau'n parhau i fod yn gymhleth a chwmpasu nifer o broblemau, gan gynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig i hynny:

- Ymddygiad – pyliau o dymer, ffrwydradau treisgar
- Gwrthod mynd i'r ysgol am resymau emosiynol
- Defnyddio'r toiled mewn ysgolion (plant ifanc)
- Cefnogi taith plentyn i'r ysgol
- Hunan-niweidio ac argyfwng iechyd meddwl arddegwyr
- Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Niwroamrywiaeth ar gyfer y teulu cyfan
- Gorbryder (plentyn a/neu riant)
- Perthnasoedd, gwrthdaro mewn perthnasoedd, rhieni sy'n ymwahanu
- Problemau iechyd meddwl (rhieni a phlant)
- Cadarnhau ADY/Niwroamrywiaeth heb gefnogaeth ar restrau aros/pan ddaw cadarnhad
- Materion cyn-geni (yn ymwneud yn benodol â chymhlethdodau iechyd meddwl, cam-drin domestig, a chyffuriau ac alcohol)
- Arddegwyr a chymhlethdod achosion
- Plant sy'n cam-drin eu rhiant/rhieni ac yn dreisgar tuag atynt – plant iau
- Trawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod
- Materion cyffredinol o ran magu plant – patrymau, ffiniau, chwarae, cwsg ac ati
- Rheoli'r emosiynau (rhieni a phlant)

# Meysydd sy'n destun pryder

Mae pryder yn parhau ynghylch **anallu'r sector i gyflwyno cymorth ymyrraeth gynnar ac ataliaeth.**

Mae'r **byd magu plant wedi newid yn llwyr**, gyda mwy a mwy o broblemau yn codi i rieni ac angen am gymorth mwy dwys. Mae'n rhaid i'r gwasanaeth **adweithio er mwyn bodloni anghenion** y byd modern, trwy ddarparu cymorth arbenigol ac ymdrin ag anghenion ehangach y tu hwnt i gylch gorchwyl magu plant.

Mae cymorth yn cael ei deilwra ar gyfer pob teulu, gan arwain at fwy o ymyriadau dwys, **cymorth un-i-un, modelu rôl, addasu rhaglenni a chyswllt tymor hwy.**

Gwelir bod rhieni eu hunain yn **niwroamrywiol** a bod angen cymorth arnyn nhw i helpu eu hunain cyn gallu helpu eu plentyn/plant.

**Mae cyllid yn dal i fod yn broblem;** yn aml mae'n gyllid byrdymor ac ansicr, gan arwain at **ansicrwydd o ran swyddi** a **chostau hyfforddi uwch** wrth i staff profiadol symud ymlaen.

Pan gynhelir grwpiau a rhaglenni ar gyfer rhieni, mae mynychu'r rhain yn gallu bod yn heriol oherwydd **diffyg trafnidiaeth neu ddiffyg gofal plant**, sy'n golygu nad yw rhieni'n gallu manteisio ar y cymorth sydd ar gael. Mae angen sicrhau bod cyllid yn cwmpasu gofal plant lleol, meithrinfeydd teithiol a chostau teithio, er mwyn gallu cynnig cyfle cyfartal i rieni.

Mae pryder mawr yn parhau ynghylch **llesiant staff**. Mae nifer o **staff yn teimlo'n anghymwys** i ymdrin â'r achosion cymhleth maen nhw'n eu hwynebu, ac yn teimlo nad ydynt yn darparu'r gwasanaeth angenrheidiol y mae teuluoedd yn haeddu ei gael, am eu bod yn **cael eu cael eu tynnu i ormod o gyfeiriadau**.

Mae **diffyg perchnogaeth a chydweithrediad rhwng gwasanaethau**, sy'n golygu bod gwasanaethau cymorth i deuluoedd a magu plant yn gorfod llenwi'r bylchau mewn gwasanaeth sydd eisoes wedi'i orymestyn, gan nad ydynt yn dymuno gwrthod unrhyw deulu.



# Ymateb i broblemau

Mae'r sector yn **gweithio'n galetach** nag erioed i fodloni **anghenion cynyddol ac amrywiol** y teuluoedd maen nhw'n gweithio gyda nhw.

Mae hyn yn cynnwys:

Buddsoddi mewn **cynllun hyfforddi ymatebol**, cyflwyno **rhaglenni rhianta newydd**, **gweithio mewn modd creadigol** a **chydweithredol** gydag asiantaethau eraill er mwyn galluogi gwasanaethau i gydweithio'n fwy effeithiol.

Cynnig **hunanatgyfeiriadau ar-lein, rhaglenni byrrach, gweithdai arbenigol, sgiliau mwy meddal, sesiynau galw heibio, grwpiau gyda'r hwyr ac ar benwythnosau, cymhellion, cymorth gan gyfoedion a hwyluswyr gwirfoddol a arweinir gan rieni**, sydd i gyd yn cynnig ffyrdd hyblyg o gael cymorth a chefnogaeth i deuluoedd.

Defnyddio **dull gweithredu seiliedig ar gryfder**, i helpu teuluoedd i gydnabod newidiadau cadarnhaol a'r pellter a deithiwyd.

Canolbwyntio ar **ddarpariaeth cyn geni** a chynnwys Tadau, fel bod modd rhannu negeseuon ac adnoddau allweddol o'r dechrau, ac annog cefnogaeth ar hyd y daith.

**Gweithio gydag ysgolion** i gyflwyno rhaglenni byrdymor (4/5 wythnos) penodol i rieni pan fydd plant yn barod i bontio i'r ysgol uwchradd neu newydd ddechrau yno. **Gweithio gyda'r gwasanaeth Ymgysylltiad a chyfranogiad ieuenctid, y Swyddog Lles Addysg/timau cynhwysiad** i ddeall materion teuluol penodol ac ymateb iddyn nhw

Ffocws cryfach ar **bwysigrwydd perthnasoedd iach a datrys anghydfodau** er mwyn gwella deilliannau i blant ac **ymgorffori cymorth gyda pherthnasoedd** mewn polisïau a strategaethau lleol ynghylch cymorth i deuluoedd a magu plant.

Hyfforddi ymarferwyr i ddefnyddio rhaglenni penodol er mwyn sicrhau **cysondeb** i blant **yn y cartref, yn yr ysgol/mewn lleoliadau gofal plant.**

Defnyddio **dull gweithredu rhagweithiol** a **gweithio gyda Iechyd**, annog Ymwelwyr Iechyd i hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael ac annog rhieni i ymgysylltu a chyrchu cymorth cyn bod unrhyw anghenion penodol yn codi ac yn dod i'r golwg.

Er bod y sector yn dal i gael ei lethu gan atgyfeiriadau, gwelir **ymateb cadarnhaol a rhagweithiol i gefnogi teuluoedd**. Mae'r amrywiaeth o ddulliau cymorth creadigol a gynigir yn tystio i **weithlu medrus, llawn angerdd**.

Mae angen cefnogi hynny â **chyllid priodol a sicr a chydnabyddiaeth eang** o'r gwaith a gyflwynir gan y sector cymorth i deuluoedd a magu plant; er mwyn sicrhau bod **pob teulu** sydd **angen cymorth yn gallu cael mynediad ato**.